13.10.2022

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
07774 888145

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Penblwydd Hapus Jiffy! Dathlu Jonathan yn troi'n 60

Mab, brawd, tad, gŵr, ffrind. Arwr - neu elyn - ar y cae rygbi. Sylwebwr heb ei ail a wyneb cyfarwydd ar y teledu. Llysgennad elusennol. MBE. Mab Trimsaran. Cymro. Mae Jonathan Davies yn cynrychioli lot o bethau i lot o bobl, yng Nghymru ac ymhell thu hwnt.

Ond wrth iddo droi yn 60 mlwydd oed, bydd S4C yn cael dathliad pen-blwydd arbennig ymysg ei ffrindiau â'i deulu, mewn rhaglen o'r enw **Jonathan 60**, fydd yn cael ei ddangos ar nos Iau 27 Hydref. Wedi ei gynnal yng Nghyfnewidfa Glo Caerdydd, bydd Eleri Siôn yn ein tywys drwy stori bywyd Jonathan; o'r uchelfannau disglair ar y cae rygbi a'r blynyddoedd hapus gyda'i deulu, i'r cyfnodau dirdynnol, emosiynol sydd wedi  newid ei fywyd.

Byddwn hefyd yn clywed hanesion doniol gan sawl un o'i ffrindiau yn y byd rygbi a darlledu, gan gynnwys Shaun Edwards, Andrew Cotter, Sarra Elgan, Alex Jones, John Inverdale, ac wrth gwrs, Nigel Owens.

Un arall o'i ffrindiau byddwn ni'n clywed ganddo, yw ei gyn gyd-chwaraewr i dîm rygbi'r gynghrair Widnes a Phrydain, Martin Offiah. Daeth llawer iawn o sylw yn y wasg yn sgil trosglwyddiad Jonathan o rygbi'r undeb yng Nghymru i rygbi'r gynghrair broffesiynol yng ngogledd Lloegr yn 1989, ac roedd Martin yn llygad-dyst i'r cyfan.

Dywedodd Martin: Roedd o ar dudalen cefn bob papur newydd yn y wlad - The Sun, The Daily Mirror, The Star – a dyna pryd sylweddolais beth yw gwir enwogrwydd. Doeddwn i ddim yn gwybod am y gair paparazzi nes i Jonathan gerdded allan o'r fainc am ei gêm gyntaf – roedd mwy o ffotograffwyr o'i gwmpas na'r Dywysoges Diana. Roeddwn i'n cerdded allan i chwarae yn meddwl mae'n rhaid i mi chwarae'n dda heddiw', ac fe wnes i sgorio pum cais...ond doeddwn i ddim yn adroddiad y gêm o gwbl!

"Heb os, Jiffy oedd y chwaraewr rygbi mwyaf talentog gyda'r bel i mi chwarae gyda, roeddwn i wrth fy modd chwarae hefo fo. Mae'n anrhydedd gallu dweud fy mod i 'di chwarae gyda chwaraewr o'i safon. Ond roedd rhaid i mi sgorio lot o geisiau i bobl sylwi arna i!"

Ond yng nghanol yr holl orfoledd a llwyddiant, fe ymddangosodd cwmwl du dros Jonathan a'i deulu, wrth i'w wraig, Karen, gael diagnosis o gancr. Fe symudodd y teulu yn ôl i Gymru, ond bu farw Karen yn 1997.

Meddai Jonathan: "Daethon ni gartre wedyn i gael y teulu o gwmpas ni, dyna'r tro cynta' gwrddais i'r bobl o Felindre. Oedd e'n bwysig bo ni nôl yng Nghymru, ond yn anffodus weithiodd e ddim a bu hi farw yn ifanc. Roedd y plant yn 7, 3 ac 1 oed, a nhw oedd fy mywyd ar y pryd.

So oedd rhaid i fi dynnu’n socs lan a mynd i waith. Dyna beth fi wedi bod yn trio gwneud, gweithio’n galed ac os mae pethau gwael yn digwydd, mae’n rhaid just brwydro yn erbyn e.

"Mae’r plant wedi troi mas yn grêt. Wrth gwrs maen nhw’n colli mam, ond gobeithio bod nhw’n sylweddoli beth ni gyd di bod trwyddo. Mae bywyd yn gallu newid fel ‘na, so mae’n bwysig bo ti’n mwynhau e. Fi ‘di enjoio fy mywyd yn fawr iawn gyda fy mhlant a Jay nawr – mae’n ffantastig."

Bellach, mae Jonathan wedi chwarae rhan allweddol wrth helpu codi dros 40 miliwn o bunnoedd i elusen Ganolfan Cancr Felindre, gyda sawl her sydd wedi gwthio ef a sawl un arall i’r eithaf.

"Dim fi sydd wedi codi arian, mae tîm enfawr wedi gwneud e, pobol sydd wedi dod ar draws y wlad i gyd ar gyfer yr un achos," ychwanega Jonathan. "Mae pobl wedi colli ffrindiau, teulu, a’r unig beth da ni’n gwneud ydi ceisio codi arian i helpu’r ysbyty, ac i drio gwneud pethau yn rhwyddach i bobl sydd yn mynd trwyddo fe nawr."

**Ymunwch â’r dathliad am 9.00 ar Nos Iau 27 Hydref ar S4C.**

**Jonathan 60**
**Nos Iau 27 Hydref 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Afanti Media ar gyfer S4C**

13.10.2022

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Penblwydd Hapus Jiffy! Celebrating Jonathan's big 60

A son, brother, father, husband, friend. A hero – or nemesis - on the rugby pitch. A passionate commentator and familiar face on television. A proud charity ambassador. MBE. Son of Trimsaran. Welshman. Jonathan Davies means a lot of different things to a lot of people, in Wales and far beyond.

And as he marks his 60th birthday, S4C will host a special celebration among Jiffy's family and friends, in a special programme called **Jonathan 60,** to be shown on Thursday 27 October. Held at the Coal Exchange in Cardiff, Eleri Sion guides us through the story of Jonathan's life; from the euphoric highs on the rugby pitch and the happy family times, to the tragic events which have also changed his life.

We'll also hear some amusing anecdotes from his friends in the world of rugby and broadcasting, including Shaun Edwards, Andrew Cotter, Sarra Elgan, Alex Jones, John Inverdale, and of course, Nigel Owens.

We'll also catch up with another of his old friends, former Widnes and Great Britain Rugby League team-mate, Martin Offiah. Jonathan's switch from rugby union in Wales to professional rugby league in northern England in 1989 sparked a media circus, and Martin witnessed it all.

Martin said: "He took over the back page of every single red top newspaper in the country – The Sun, The Daily Mirror, The Star, and I realised what star power was all about. I didn't know what the word paparazzi was until Jiffy walked out from the bench (on his debut), and there's more photographers around him than Princess Diana. I'm walking out to play and I'm thinking, 'I better have a good game today!' I scored five tries, but I don't think I even got a mention in the report after the game!

"Hands down, Jiffy was the most talented footballer I ever played with. I loved playing with him, it was an honour to say that I'd played with such a great player. But I had to score a lot of tries to get noticed!"

But amidst the plaudits and success, a dark cloud appeared over Jonathan and his family, as his wife, Karen, was diagnosed with cancer. The family moved back to Wales, but Karen sadly passed away in 1997.

Jonathan said: "We came home to have the family around is, and that was the first time we met the people from Velindre. It was important to be back in Wales, but unfortunately it didn't work out and she died young. The kids were 7, 3 and 1, and they were my world. So I had to pull my socks up and go to work. That's what I've always tried to do, work hard and if bad thigs happen, you have to fight against it.

"The children have turned out great. Of course, they miss their mam, but I hope they realise everything that we've all been through. Life can change just like that so it's important that you enjoy it. I've enjoyed my life a lot with my kids and now with Jay – it's fantastic."

Jonathan has since played a key role in helping raise £40 million for the Velindre Cancer Centre charity, through a number of extreme challenges which have pushed him and others to their limits.

"It's not me who's raised this money, there's a big team who have done it, people from across the country who have come together for one cause," added Jonathan. "People have lost friends, family and we're just trying to raise money to help the hospital and to make things a bit easier for the people who are going through it now."

**Join in the celebrations at 9.00pmon Thursday night, 27 October, on S4C.**

**Jonathan 60**
**Thursday 27 October, 9.00**
**English Subtitles**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**An Afanti Media production for S4C**